

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 2. Rheoli eich sefydliad

### 2.17 Effaith a mesur effaith

#### **Beth yw Effaith?**

Un ffordd o feddwl am effaith yw gofyn “Sut le fyddai'r byd pe na bai fy mudiad/prosiect yn bodoli?” Neu, i fod yn fwy cadarnhaol, “Pa wahaniaeth mae fy mudiad/prosiect/digwyddiad/ gweithgaredd yn ei wneud?” Fel arfer daw ychydig o bethau i'r meddwl yn syth ynghylch bwriad eich mudiad neu'r rheswm dros ei fodolaeth. Mae effeithiau eraill rydych yn gwybod amdanynt efallai, neu efallai ddim. Yr hyn sy'n bwysig i chi sylweddoli yw y gall effaith fod yn gadarnhaol ac yn negyddol, a gallai fod yn fwriadol neu'n anfwriadol. Fel arfer mae'n ganlyniad blynyddoedd o waith, o fod mewn sefyllfa, ac mae'n anodd datrys pwy neu ba fudiad sy'n gyfrifol am y newid dan sylw.

Caiff effaith ei chysylltu'n aml â chanlyniadau, fel petai proses lle bydd mudiad yn defnyddio adnoddau (mewnbyn: pobl, amser, arian, asedau, enw da) i wneud i rywbeth ddigwydd (allbwn: cyfarfodydd, gwasanaethau, gweithgareddau, prosiectau, gwaith gyda grwpiau neu unigolion) sy'n arwain at newid amlwg mewn unigolyn neu fudiad (canlyniad: defnyddiwr gwasanaeth yn sicrhau cyflogaeth, sefydlogi teulu sy'n cael cefnogaeth a mudiad sy'n cael cefnogaeth yn sicrhau cyllid). Gellir disgrifio canlyniadau fel rhai cadarn (rhai y gellir eu cyfrif yn hawdd, e.e. sicrhau cyflogaeth, gwerth y cyllid a sicrhawyd) neu ganlyniad meddal (cerrig milltir nad yw'n hawdd eu mesur yn erbyn y canlyniad cadarn: defnyddiwr gwasanaeth yn meithrin hyder, mudiad yn gallu dewis cynllun grant priodol). Gellir ystyried effaith fel dylanwad ehangach y canlyniadau (mae cyflogaeth yn golygu bod unigolyn yn gallu cynnal tenantiaeth, neu'n cyfrannu at incwm y teulu neu ddefnyddio llai o wasanaethau) ond gall fod yn ganlyniad mewnbyn hefyd (mae cyllid a gaiff ei sicrhau yn golygu bod y mudiad yn symud swyddfeydd, bod ganddo enw da gwell, a bod partneriaid yn ei ystyried yn fudiad pwysicach).

Efallai fod gennych fwy o ddiddordeb mewn ystyried canlyniadau yn hytrach nag effaith ar hyn o bryd. Os felly, darllenwch daflen wybodaeth WCVA, 'Canlyniadau Cadarn a Meddal'.

#### **Pam ystyried effaith?**

Mae effaith yn golygu a yw eich mudiad yn gwneud gwahaniaeth ai peidio. Felly, dylai fod o ddiddordeb i ymddiriedolwyr neu fwrdd cyfarwyddwyr. Fodd bynnag, gall hefyd fod o ddiddordeb i randdeiliaid eraill:

- Bydd defnyddwyr gwasanaeth/cleientiaid/cwsmeriaid a'ch gwirfoddolwyr a'ch staff chi yn awyddus i fod yn gysylltiedig â grŵp/gwasanaeth/mudiad a gaiff ei ystyried fel 'peth da' yn eu grŵp cyfoedion. Bydd cyllidwyr yn awyddus i weld pa wahaniaeth y mae eu cyllid yn ei wneud.
- Bydd cynghorwyr lleol, ACau, ASau ac ASEau yn awyddus i weld eich mudiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a..
- Bydd gan fudiadau partner ddiddordeb mewn gwybod sut y gall eich dylanwad, eich enw da a'ch gallu i ddarparu eu helpu i gyflawni eu nodau.

Felly, ceir llawer o resymau dros ystyried eich effaith

## **Sut mae effaith yn cydblethu â gweithgareddau a chynlluniau?**

I lawer o fudiadau, mae effaith yn rhywbeth greddfoll: bydd aelodau'r bwrdd sy'n gyfarwydd â'r mudiad a'r gymuned neu'r rhanddeiliaid yn ei synhwyro. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i chi ddweud neu ddangos i rai rhanddeiliaid yr effaith y mae eich mudiad yn ei hachosi yn eich barn chi. Gellir gwneud hyn drwy nifer o wahanol ffyrdd:

- Gallwch ganolbwyntio ar un prosiect neu ar yr holl fudiad.
- Gallwch ystyried pethau o safbwynt y bwrdd, y defnyddwyr gwasanaeth neu'r cyllidwyr.
- Gallwch ystyried agweddau ariannol, cymdeithasol neu amgylcheddol.
- Gallwch wneud hyn fel gweithgaredd parhaus neu bob hyn a hyn.

Efallai eich bod yn galw hyn yn werthusiad neu archwiliad.

Mae rhai fframweithiau ansawdd yn cynnwys elfen o effaith (ee y Fframwaith Mesur Safon Ewropeaidd, sy'n defnyddio bodlonrwydd cwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth). Mae rhai fframweithiau mesur perfformiad yn cynnwys hynny hefyd, gan ddewis dangosyddion sy'n ystyried yr effaith ar y gymuned (ee defnyddio prydau ysgol am ddim er mwyn dangos lefelau amddifadedd incwm neu ystadegau troseddau neu ofn ynghylch troseddu mewn ardal). Ceir hefyd fframweithiau comisiynu gwasanaethau sy'n cysylltu ansawdd bywyd da neu ddangosyddion eraill ag allbwn a chanlyniadau gwasanaethau (ee Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau). Bydd defnyddio'r fframweithiau hyn yn golygu y caiff effaith ei chysylltu â gwerthuso gwasanaeth neu fonitro gwasanaeth.

## **Dangos Effaith**

Mae cysylltu effaith â gwerthuso gan ddefnyddio arolygon neu ddangosyddion yn awgrymu y gallwch fesur effaith. Mae'n debyg nad yw hyn yn wir, oherwydd gall effaith ddibynnu ar safbwynt y sawl sy'n ei harsylwi. Felly, efallai ei bod yn fwy addas siarad am ddangos effaith. Gall hyn gynnwys rhifau ac ystadegau, ond gall hefyd ddefnyddio disgrifiadau, dyfyniadau neu hanesion a all ddangos yr hyn sydd wedi digwydd. Gall y rhain gynnwys barn unigolion hollbwysig, profiad defnyddiwr gwasanaeth, adroddiadau o gyfarfodydd rhanddeiliaid, syniad sydd wedi ymddangos mewn dogfen polisi neu erthyglau i'r wasg. Weithiau gall ailadrodd y gwaith a wneir ar gyfer dadansoddi cynnig grant neu brosiect ddangos sut mae pethau wedi newid.

## Mesur effaith

Er mwyn mesur effaith, mae'n rhaid cael dangosydd da o'r hyn sydd wedi newid yn eich barn chi, ac o leiaf dau o fesuriadau da o'r dangosydd y gellir eu cymharu. Gall rhai ystadegau a gesglir gan y llywodraeth fod yn ddangosyddion da, ac maent yn annibynnol (felly does dim modd i bobl ddweud eich bod wedi dylanwadu arnynt). Gall defnyddio eich arolygon eich hun ddarparu'r math hwn o wybodaeth am newid, ond rhaid gallu cymharu'r arolygon, gan ddefnyddio'r un dull yn ogystal â'r un cwestiwn. Er enghraifft, gallwch gael canlyniadau gwahanol o arolwg ar-lein o'i gymharu ag arolwg drwy'r post.

## Chi ynteu ni?

Mater pwysig wrth ddangos neu fesur effaith yw i ba raddau y gall eich mudiad neu'ch prosiect gymryd y clod am effaith gadarnhaol, neu dderbyn y bai am unrhyw effaith negyddol. Fel arfer bydd prosiectau neu fudiadau eraill ynghlwm, a gall fod yn anodd gwahaniaethu'r amgylchiadau helaeth sydd wedi achosi effaith, yn enwedig os bydd yn cymryd blynyddoedd i ddod i'r amlwg. Mae cyd-destun unrhyw ddatganiad o effaith yn bwysig, er mwyn ei gwneud yn glir bod pobl eraill wedi chwarae eu rhan.

## Costau a buddiannau

Os nad ydych wedi gwneud hyn o'r blaen, bydd llawer o gostau'n gysylltiedig â dangos neu fesur effaith:

- Bydd arolygon cwsmeriaid, staff neu randdeiliaid yn cymryd amser ac yn costio arian.
- Gall cynllunio a chynnal cyfarfodydd er mwyn cynllunio beth y dylech ei ystyried a sut y byddwch yn archwilio unrhyw effaith bosibl fod yn broses hir a diflas. Gellir ymgorffori hyn mewn adolygiad o'r cynllun busnes neu strategol ac felly bydd yn costio llai.
- Bydd angen amser arnoch i ymgorffori systemau monitro newydd, bydd angen cyflwyno'r ffordd newydd o wneud pethau i staff a gwirfoddolwyr, ac mae'n bosibl y bydd anghenion hyfforddi.
- Bydd yn rhaid i rywun gasglu'r wybodaeth, sicrhau ei hansawdd ac adrodd arni. Bydd y gost hon yn dibynnu ar ba mor dda y mae'r broses dangos effaith yn cyd-fynd â systemau monitro arferol.

Mae hefyd yn debygol y bydd nifer o fuddiannau, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau:

- Bydd y mudiad yn canolbwyntio mwy ar yr effeithiau y gall eu cael. Gall hyn helpu o ran cynllunio strategol.
- Gellir mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol yn hytrach na'u hanwybyddu.
- Gall ddarparu hanesion sy'n rhoi teimlad o hunaniaeth a lle i'ch mudiad yn y gymuned neu'r gymdeithas ehangach.

- Gellir defnyddio'r wybodaeth ar gyfer adroddiadau mewnol ac i hyrwyddo eich mudiad gyda chyllidwyr a rhanddeiliaid eraill gan arwain at broffil i sicrhau mwy o sylw i'ch mudiad.

## Dulliau o ddangos effaith

Ceir nifer o wahanol ddulliau a fydd yn addas i wahanol fudiadau gan ddibynnu ar eu hethos, maes gweithgarwch, yr adnoddau sydd ar gael, gofynion rhanddeiliaid allanol, p'un ai a oes angen ei ddilysu'n annibynnol, p'un ai a ydych yn awyddus i feincnodi yn erbyn grwpiau tebyg a'r amser sydd ar gael. Rhoddir sylw i rai o'r prif ddulliau yma. Mae adolygiad o dros 20 o ddulliau wedi'i gyhoeddi gan y New Economics Foundation<sup>1</sup>.

- Dangosyddion Perfformiad Cydweithredol Amgylcheddol a Chymdeithasol: cyfres o ddangosyddion sy'n gysylltiedig ag egwyddorion cydweithredol
- Eco-fapio: system sy'n galluogi i'ch mudiad ystyried ei effaith ar yr amgylchedd.
- Cynllun Cofnodi Byd-eang (GRI): system ar gyfer rhoi gwybod am effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- Trawsluoswr Lleol 3 (LM3): adnodd i amcangyfrif effaith economaidd mudiad yn lleol
- Prove it!: dull i ddangos effaith mudiad neu brosiect ar ansawdd bywyd pobl.
- Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (RBA) neu Ganlyniadau ar Sail Atebolrwydd (OBA, y teitl a ddefnyddir yn Lloegr): mae hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cysylltu canlyniadau prosiect neu wasanaethau â dangosyddion lefel poblogaeth anghenion cymdeithasol. Mae'n cael ei ddefnyddio gan Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i gomisiynu gwasanaethau
- Cyfrifeg Gymdeithasol ac Archwilio: system sy'n cynnwys rhoi gwybod am effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mudiad. Mae'n cynnwys dilysiad allanol
- Cerdyn Sgorio Cytbwys Mentrau Cymdeithasol: dull cynllunio strategol mewnol yn bennaf yn cynnwys nodau ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Gellir defnyddio'r dangosyddion ar gyfer cyflwyno adroddiadau allanol.
- Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI): dull mesur canlyniadau sy'n defnyddio dull cost a budd er mwyn trosi effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn dermau ariannol a mynegi hyn fel adenillion ar fuddsoddiad.
- Pecyn Adnoddau Gwerth Cymdeithasol: wedi'i ddatblygu ar gyfer y GIG er mwyn gwerthuso gwerth ychwanegol (heb fod yn werth iechyd na chymdeithasol) gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu. Mae'n cynnwys dull cymharu ar gyfer comisiynwyr.
- Pecyn Adnoddau Asesu Effaith Gwirfoddoli (VIAT): fframwaith a chyfarwyddyd er mwyn dangos effaith gwirfoddoli ar wirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r gymuned.

<sup>1</sup> Tools for you: dulliau ar gyfer darparu a gwella elusennau, mudiadau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol, New Economics Foundation, 2009

## Penderfynu pa ddull i'w ddefnyddio

Gan fod cynifer o wahanol ddulliau a fframweithiau ar gael, sut mae penderfynu pa un i'w ddefnyddio? Mae nef wedi adolygu nifer o'r dulliau hyn ac wedi'u grwpio mewn dulliau sy'n addas i fudiadau bach, canolig neu fawr, sy'n canolbwyntio ar ansawdd, strategaeth neu effaith a'r rheini sy'n canolbwyntio ar agweddau economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol neu sy'n arddel dull cyfannol. Yna caiff y dulliau eu disgrifio ar sail yr adnoddau angenrheidiol, pa mor gymhleth ydynt i'w defnyddio, pa fath o gefnogaeth sydd ar gael ac a yw'n bosibl eu dilysu'n allanol.

## Elfennau craidd i'w hystyried

Mae adroddiad diweddar gan Demos<sup>2</sup> yn awgrymu y dylid cynnwys elfennau craidd wrth ystyried dangos effaith, gan symud oddi wrth yr elfennau sylfaenol (a'r rhai nad ydynt yn canolbwyntio gymaint ar adnoddau) i rai mwy cymhleth a thechnegol:

1. Allbwn (ee 200 o oriau o hyfforddiant i 500 o bobl)
2. Canlyniadau (ee daeth 20 o bobl o hyd i swydd o ganlyniad i'r hyfforddiant)
3. Effaith ehangach (ee swyddfa yn lleihau faint o ynni y mae'n ei ddefnyddio 5%)
4. Cyfranogiad Rhanddeiliaid (ee a yw'r canlyniadau wedi'u mesur drwy ymgynghori â rhanddeiliaid)
5. Mesur Pellter a Deithir (ee cymharu fesul blwyddyn. Mae nifer y bobl sydd wedi dod o hyd i waith 12% yn fwy na'r llynedd)
6. Gwerth Cyllid (ee mae gwerth ariannol cynnydd gweithgarwch mewn cyflogaeth wedi arwain at ostyngiad o £20,000 mewn budd-daliadau lles)

Byddai'n ddefnyddiol ystyried pa elfennau o'r ffordd y mae eich mudiad yn dangos ei effaith sy'n hollbwysig neu'n ddewisol a pha elfennau sy'n ddymunol ar gyfer rhanddeiliaid neu gynulleidfaoedd mewnol neu allanol.

## Rhagor o wybodaeth

Taflenni gwybodaeth:

- 2.1 Datblygu cynllun strategol
- 2.5 Ansawdd
- 2.6 Monitro a gwerthuso
- 2.14 Defnyddio hyfforddwyr ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Ffynonellau gwybodaeth eraill:

Demos: [www.demos.co.uk](http://www.demos.co.uk)

---

<sup>2</sup> Measuring social value: y bwllch rhwng polisi ac ymarfer, Demos, Medi 2010

New Economics Foundation: [www.neweconomics.org](http://www.neweconomics.org)

## Ymwadiad

Dim ond cyfarwyddyd yw'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon. Nid yw gyfystyr â chyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros golled o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n peidio â gweithredu o ganlyniad i'r wybodaeth.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cyngor Trydydd Sector Caerdydd**

*Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH*

**Elusen Gofrestredig:** 1068623

**Ffôn:** 029 2048 5722

enquiries@c3sc.org.uk

**Ffacs:** 029 2046 4196

www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

**Wedi ei ddiweddarau:** 24/04/2017

The logo for WcVA CgGC is displayed on a red rectangular background. The text 'WcVA' is in a white, bold, sans-serif font, with a horizontal line underneath it. Below the line, the text 'CgGC' is also in a white, bold, sans-serif font.

Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.cymru](http://www.wcva.cymru)